# IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO CBC Y GOGLEDD DYDD MAWRTH, 9 RHAGFYR 2025

**Aelodau Etholedig:** Cynghorydd Gareth Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Cynghorydd Andrew Parkhurst (Cyngor Sir y Fflint), Cynghorydd Paul Rogers (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Cynghorydd Ioan Thomas (Cyngor Gwynedd), a Cynghorydd Geraint Bebb (Cyngor Sir Ynys Môn).

**Aelodau Lleyg:** Nigel Rudd (Cadeirydd).

**Aelodau Etholedig (Dirprwyedig):** Cynghorydd Bobby Feeley (Cyngor Sir Ddinbych).

**Swyddogion eraill yn bresennol**: Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC), David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r CBC), Dewi A. Morgan (Pennaeth Cyllid – Cyngor Gwynedd), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio - Cyngor Gwynedd), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Cyngor Gwynedd), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro CBC), a Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Cyngor Gwynedd).

## 1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2025/26

Penderfynwyd gohirio'r penodiad hyd nes y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd ethol Nigel Rudd yn Gadeirydd y cyfarfod hwn.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2025/26

Penderfynwyd gohirio'r penodiad hyd nes y cyfarfod nesaf.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gynghorydd Carol Holliday (Cyngor Sir Ddinbych), Carys Edwards (Aelod Lleyg), a Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid - Cyngor Gwynedd).

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Croesawodd Prif Weithredwr y Cydbwyllgor Corfforedig (CBC) yr holl Aelodau i'r cyfarfod gyntaf yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio CBC Gogledd Cymru, a chyflwynwyd cyd-destun am y CBC.

Gofynnwyd am gadarnhad beth yw cynnwys cworwm yn yr Is-bwyllgor hwn, gan ofyn a yw'n bosib dirprwyo. Eglurodd y Swyddog Monitro nad yw hyn yn bosib, gan fod y Cylch Gorchwyl wedi gosod cworwm uchel. Cadarnhawyd bod un aelod o bob awdurdod ac un

aelod lleyg yn bresennol heddiw ac o ganlyniad fod cworwm.

Cyflwynwyd y swyddogion ynghyd a'i rolau er mwyn rhoi cefndir a chyd-destun yr Is-bwyllgor.

## 6. BLAEN GYNLLUN GWAITH YR IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod y Blaengynllun Gwaith yn darparu'r rhaglen waith, sy'n caniatáu i'r Is-bwyllgor gyflawni ei rôl statudol fel y'i nodir yn Rheoliadau Sefydlu 2021. Eglurwyd mai mater i'r Aelodau a'r Cadeirydd yw nodi pa adroddiadau y maent am eu gweld ger bron yr Is-bwyllgor ac unrhyw ofynion hyfforddi y byddant eu hangen. Bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at y Blaengynllun Gwaith, a fydd yn ddogfen fyw a chaiff ei gylchredeg yn rheolaidd i'r Aelodau.

Cadarnhawyd bod dyddiadau cyfarfodydd y CBC ar gyfer 2025/26 yn y calendr tan fis Mai 2026. Nodwyd y bydd calendr terfynol newydd yn cael ei ddatblygu ddechrau'r flwyddyn nesaf. Holwyd os oes dyddiadau cyfarfodydd Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ei gyflwyno. Mynegwyd bod dyddiad ar gyfer mis Ionawr er mwyn ystyried y Gyllideb cyn iddo gael ei gyflwyno i'r CBC ar 23 Ionawr.

Cadarnhawyd y bydd cyfarfodydd yr Is-bwyllgorau yn cael eu hamserlennu o gwmpas y Blaengynllun Gwaith, er mwyn caniatáu i waith yr Is-bwyllgor fwydo'n briodol i'r CBC. Nodwyd y byddai dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer diwedd 2025/26 yn ddibynnol ar gapasiti adnoddau a gofynion yr eitemau fydd angen eu cyflwyno i'r Is-bwyllgor.

Amlygwyd pwysigrwydd rhannu dyddiadau yn amserol ar gyfer cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, o ystyried y gofynion sydd arnynt yn eu hawdurdodau priodol, ac er mwyn sicrhau cworwm. Cadarnhawyd y byddai yn cael eu cylchredeg cyn gynted â phosib.

Mynegwyd pryderon am brinder eitemau ar y Blaengynllun Gwaith, yn enwedig o ystyried bod y Cylch Gorchwyl yn amlygu eitemau y dylid eu cynnwys. Ymatebwyd gan esbonio fod y Blaengynllun yn parhau i gael ei ddatblygu wrth weithio ochor yn ochor ag aelodau er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol yr Is-bwyllgor hwn. Ategwyd yr angen i ystyried capasiti ac yr anodau sydd ar gael ei wneud y gwaith yn ogystal.

Cynigwyd gohirio'r penderfyniad tan ddiwedd y cyfarfod er mwyn cael cyd-destun cyn penderfynu ar flaenoriaethau'r Is-bwyllgor, ac i amlygu unrhyw eitem ychwanegol i'w gynnwys ar y Blaengynllun Gwaith.

Nid oedd cworwm ar ddiwedd y cyfarfod ac felly ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniad ond nodwyd y sylwadau er gwybodaeth.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch sefydlu'r Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd i sicrhau craffu priodol ar y CBC. Holwyd os oedd angen ystyried y strwythur arfaethedig. Cadarnhawyd bod y cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd eisoes wedi'i sefydlu a'i gytuno gan y chwe awdurdod lleol.

Adroddwyd y rhestr ganlynol o eitemau, fel awgrymiadau ar gyfer y Blaen Cynllun Gwaith:

- Rhaglen Archwilio Mewnol / Archwilio Allan (Archwilio Cymru)
- Adroddiad olrhain camau gweithredu archwilio
- Datganiad cyfrifon blynyddol 2024/25 ac adroddiad Archwilio Cymru
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25

- Cofrestr Risg
- Rheoli asedau a gwaredu cyfalaf
- Rheoli'r trysorlys
- Cyllideb ddrafft 2026/27
- Strategaeth drafft ariannol tymor canolig
- Adroddiad crynodeb llywodraethu'r CBC
    - Cynllunio Corfforaethol
    - Cynllunio Ariannol
    - Rheoli Perfformiad
    - Rheoli Risg
    - Cynllunio'r Gweithlu
    - Rheoli Asedau
    - Caffael

Eglurwyd y byddai swyddogion yn cynghori pa eitemau fyddai'n mynd ger bron yr Is-bwyllgor ar ba ddyddiadau, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, gyda'r disgwyliad o dri cyfarfod pellach ar gyfer 2025/26. Ymhelaethwyd byddai'r Blaen Cynllun Gwaith yn dilyn ei ddiweddaru yn cael ei ddosbarthu cyn gynted â phosib er mwyn darparu fframwaith i'r Is-bwyllgor.

Gofynnwyd y Cadeirydd (dros dro) a fyddai'n cadw swydd y Cadeirydd nes bod Cadeirydd yn cael ei benodi'n swyddogol yng nghyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor. Cadarnhawyd bod hyn yn ddisgwyliad rhesymol.

## 7. CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd bod y cylch gorchwyl yn adlewyrchu rôl a swyddogaeth yr Is-bwyllgor, a bod y rhain wedi'u nodi yn Rheoliadau Sefydlu 2021 ac yng nghyfansoddiad y CBC. Amlygwyd swyddogaeth statudol benodol i'w Aelodau.

Ymhelaethwyd y bydd yr Is-bwyllgor yn hyrwyddo arfer da. Nodwyd bod canllawiau statudol ac anstatudol sy'n cefnogi'r prif Gynghorau'r un mor berthnasol i'r CBC.

Cydnabuwyd bod cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor yn debyg i gylch gorchwyl awdurdodau lleol. Nodwyd byddai nodi rhif fersiwn ar y cylch gorchwyl yn hwyluso unrhyw newidiadau dilynol. Cytunwyd y byddai unrhyw addasiadau yn cael eu nodi'n glir fel y gellir amlygu pob newid.

Gofynnwyd pwy yw Prif Swyddog yr Is-bwyllgor, a'r angen i'w amlygu yn y Cylch Gorchwyl. Holwyd am eglurhad ar y perthynas rhwng yr Is-bwyllgor a'r CBC, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ble mae'r penderfyniadau'n cael eu gwneud a ble mae adroddiadau'n cael eu rhannu'n ffurfiol. Mynegwyd bod y Swyddog Adran 151 yn cael ei ystyried fel swyddog arweiniol de-facto ar gyfer Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yng Nghyngor Gwynedd, ond fod angen trafodaeth bellach ar benodi'r Swyddog Arweiniol ar gyfer y Pwyllgor hwn. Ategwyd nad yw Swyddogion Arweiniol yn cael ei gadarnhau yn y Cyfansoddiad na Chylch Gorchwyl yng Nghyngor Gwynedd.

Esboniwyd ei bod yn bwysig nodi'r swyddog arweiniol cywir, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth amserol a perthnasol yn cael ei darparu am raglen waith y CBC yn yr Is-bwyllgor. Atgoffwyd Aelodau bod y CBC yn gweithredu'n rhanbarthol yn hytrach nag yn lleol, ac felly bod yn bwysig cydnabod y gwahaniaethau rhwng y CBC a'r awdurdodau lleol. Ymhellach, nodwyd bod hwn yn gyfle i'r Is-bwyllgor lunio a thywys gwaith y CBC yn briodol, ac felly rhaid sicrhau bod Aelodau'n derbyn y wybodaeth gywir.

Tynnwyd sylw at Ddeddf Etholiadau Lleol 2021, a rôl pwyllgorau llywodraethu ac archwilio, ac sy'n cynnwys agweddau o berfformiad a chwynion. Nodwyd byddai'r gwaith yr Is-bwyllgor yn mynd ar draws i feysydd eraill ac o ganlyniad yn debygol o fod yn ehangach na chyfraniad y Swyddog Adran 151. Mynegwyd yr angen i amlygu llinell atebolrwydd clir i sicrhau bod yr Is-bwyllgor yn gwybod pwy yw'r pwynt cyswllt.

Amlygwyd pryder ynghylch a ddylai cynrychiolydd o Archwilio Cymru fod yn bresennol yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor gan nad oedd unrhyw faterion archwilio allanol ger bron yr Is-bwyllgor yn y cyfarfod hwn. Cadarnhawyd bod y CBC wedi cytuno ar raglen waith gydag Archwilio Cymru felly bydd disgwyliad iddynt fod yn bresennol ar gyfer yr eitemau yma. Nodwyd angen i'w gynnwys ar y Blaengynllun Gwaith.

Cadarnhawyd y drefn bleidleisiau ar gyfer y cyfarfod hwn, a bod penderfyniadau yn cael ei gyhoeddi yn y daflen benderfyniad dim mwy na 5 diwrnod gwaith yn dilyn y cyfarfod.

## 8. ADRODDIAD CYNNYDD Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod hwn yn gyfle i roi cyd-destun y CBC ynghyd â diweddariad ar y gwaith sydd wedi ei wneud. Eglurwyd fod dau adroddiad wedi ei gyflwyno eisoes i'r Cydbwyllgor, y cyntaf yn ôl ym mis Mehefin yn ystod dyddiau cynnar y rhaglen yn dilyn y trosglwyddiad, a adnabuwyd rhestr uchelgeisiol o beth oedd angen ei wneud ond ei fod yn gyfnod ble nad oedd Prif Weithredwr wedi ei benodi. Bu i'r ail adroddiad adrodd ym mis Tachwedd, er mwyn diweddaru ar y gwaith sydd wedi ei wneud ac adnabod y sialensiau ar adnoddau sydd ei angen i gwblhau'r gwaith.

O ran cefndir, eglurwyd for y Cynllun Twf wedi trosglwyddo i'r CBC yn ôl yn Ebrill a bellach gyda statws gweithredu llawn ac felly a'r gallu i gyflogi pobl. Mynegwyd yr angen i'r CBC gydymffurfio â'r dyletswyddau cyffredino â sefydliadau sector cyhoeddus a nodwyd fod dyletswydd statudol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Trafnidiaeth Ranbarthol.

Eglurwyd fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud hyd at / a gan gynnwys y trosglwyddiad a hynny gyda thîm bach iawn. Tynnwyd sylw at y rhestr a gyflwynwyd yn yr adroddiad. Ategwyd fod rhaglen o newid wedi ei ddatblygu yn seiliedig ar flaenoriaethau, a bod y Prif Weithredwr wedi ei phenodi ym Mehefin 2025. Nodwyd fod ffactorau wedi dal rhai pethau yn ôl, megis y penodi swyddogion ond eu bod yn gweithio drwy'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth i dderbyn y gefnogaeth sydd ei angen.

Er y sialensiau nodwyd fod gwaith wedi parhau i ddatblygu a'u bod o fewn camau ddyblygu ar gyfer meysydd fel y wefan. Amlygwyd heriau megis oedi ar adolygu prosbectws CBC Llywodraeth Cymru, oedi wrth gaffael a gweithredu'r System Rheoli Pwyllgorau a denu ymgeisiwyd ar gyfer swyddi megis Uwch Swyddog Caffael. Esboniwyd eu bod yn parhau i fod angen gweithredu dau Is-bwyllgor sef Safonau a Throsolwg a Chraffu. Mynegwyd fod datblygu rhaglen UGC newydd ar gyfer 2026/27 a map ffordd ar gyfer y blynyddoedd dilynol yn debygol o fwrw sawl prosiect ymlaen.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod y CBC wedi cyrraedd ble maen nhw o ganlyniad i gymorth staff partneriaid megis Cyngor Gwynedd a diolchwyd iddynt am eu gwaith. Pwysleisiwyd fod y Cydbwyllgorau ar draws Cymru yn newydd ac felly mae'n cymryd amser i lywio drwy'r broses o flaenoriaethu gan geisio peidio rhoi pwysau ychwanegol ar Awdurdodau'r Gogledd ond i sicrhau eu bod yn cyrraedd gofynion y Llywodraeth.

Nododd y Swyddog Monitro fod gwaith yn ac wedi ei wneud i sefydlu'r CBC yn endid o ran maint sy'n weddol fychan ond a maint gofynion maint Llywodraeth Leol. Uwchlaw sefydlu, nododd fod rhaglenni wedi bod yn datblygu yn y cefndir yn rhanbarthol ac yn

genedlaethol. Ategwyd fod trosglwyddo'r Cynllun TWF wedi bod yn gatalydd i symud ymlaen ond fod adnoddau wedi bod yn heriol gan fod yr angen i ymateb i gynlluniau a gofynion statudol wrth gyfiawnhau adnoddau.

Mynegodd y Prif Swyddog Cyllid fod y pwysau adnoddau wedi bod yn sialens a bod nifer o waith wedi ei wneud. Eglurwyd y bydd cyfarfod arall o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei gynnal yng nghanol mis Ionawr gan y bydd angen i'r CBC dderbyn y gyllideb, yn unol ar ddeddf erbyn 31 Ionawr.

Tynnwyd sylw at y Is-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Safonau gan holi os oes dyddiadau bellach mewn lle gan nodi pryder nad oes trefniadau craffu mewn lle. Ymatebwyd drwy nodi nad oes dyddiad pellach gan fod angen trafodaeth fanwl ar flaenoriaethau ac i drafod ymhellach gydag Awdurdodau Lleol. Mynegwyd y gobaith o gynnal y cyfarfodydd cyntaf yn ystod y gwanwyn. Ymhelaethwyd gan nodi fod y daith o ran Trosolwg a Chraffu yn rhai hir gan mai Awdurdodau Lleol y Gogledd sydd yn sefydlu'r gyfundrefn graffu ac nid y CBC. Ategwyd fod y penderfyniad wedi mynd drwy'r holl Gynghorau ym mis Gorffennaf ac yna fod angen creu rhaglen o sut y bydd y model yn gweithio. Pwysleisiwyd pwysigrwydd craffu o ran llywodraethant.

O ran y gyllideb nodwyd fod y broses hon yn teimlo yn hwyr iawn gan fod Awdurdodau ymhellach y blaen, ac y gallai amharu ar gyllidebau Awdurdodau Lleol os lefi yn codi. Nodwyd fod y cyfarfod eleni yn mynd i fod ychydig yn hwyr, ond gobeithio y bydd modd dod yn gynharach y flwyddyn nesaf. O ran y lefi, nodwyd fod trafodaethau yn digwydd ar lefel swyddogion ac Arweinyddion ac na fuasai unrhyw addasiad i'r lefi yn sioc iddynt.

Tynnwyd sylw at y drefn ariannol, gan ofyn a oes modd rhannu adroddiadau aethpwyd i'r CBC a'r aelodau yma i roi cyd-destun cyllidol ynghyd a'r prif negeseuon a roddwyd o ran gwariant 2024/25. Cytunwyd i hyn gan amlygu y bydd adrodd cyson o ran gwariant yn dod i'r pwyllgor hwn. O ran prif negeseuon amlygwyd fod llawer o danwariant er y gwaith sydd wedi ei wneud a'i fod wedi ei roi mewn cronfeydd wrth gefn ac y bydd yn erbyn y lefi ar gyfer eleni a blwyddyn nesaf. Yn amlwg, esboniwyd gan fod datblygiadau eleni bydd y gwariant yn cynyddu a fydd yn arwain at lai o danwariant.

Trafodwyd arafwch o wneud penderfyniadau gan fod aelodaeth yr Is-bwyllgor hwn wedi ei benderfynu yn ôl ym mis Ionawr ond dim cyfarfod ffurfiol tan fis Rhagfyr, a gofynnwyd a oes mod cynyddu'r cyflymder o ran penderfyniadau. Ymatebwyd drwy nodi fod adnoddau wedi bod yn broblem o ran sicrhau fod penderfyniadau o safon yn cael ei gwneud, a'i bod wedi bod yn anodd penodi i swyddi . O ran materion eraill eglurwyd fod goblygiadau cyfreithio i rai meysydd yn y CBC ac o ganlyniad roedd angen blaenoriaethu a chynyddu cyflymder ar feysydd megis y Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Trafnidiaeth Ranbarthol.

Amlygwyd fod y CBC yn gorff newydd sydd â chyfrifoldebau mawr a bod angen sicrhau fod rôl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn wreiddiol i'r hyn sydd angen ei wneud. Gofynnwyd i weld y gofrestr risg mor fuan â phosib, ynghyd a gwybodaeth bellach ar staffio ac adnoddau.

## 9. MANDAD A SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Eglurwyd bod ers Ebrill 2025, pan ddaeth y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang i rym yn Sector Gyhoeddus y Deyrnas Unedig, mae'n hanfodol bod y Gwasanaeth Archwilio yn cydymffurfio â'r Safonau yma. Eglurwyd fod Nodyn Cymhwyso wedi ei gyflwyno sydd yn darparu fframwaith ymarferol ar sut y gellid gweithredu a chymhwyso, yn rhoi arweiniad ac yn egluro sut mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang ar lywodraethu -

sef Parth III (Domain III) yn berthnasol i oruchwyliaeth a dyletswyddau'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Un o'r camau hanfodol yw cymeradwyo siarter sydd yn cynnwys mandad a sgôp a mathau o waith Archwilio Mewnol.

Ategwyd fod CIPFA wedi datblygu Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y Deyrnas Unedig gyfer dehongli a sicrhau cydymffurfiaeth gyda dyletswyddau statudol. Mae'r Cod wedi ei anelu at y rhai sy'n gyfrifol am drefniadau llywodraethu effeithiol – sef yr Is-Bwyllgor hwn.

Mae'r Siarter yn nodi'r trefniadau ar gyfer swyddogaeth archwilio fewnol gyflawni ei ddiben. Mae rôl archwilio mewnol yn cynnwys:

- Cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol drwy ddarparu sicrwydd gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg,
- Hyrwyddo arfer da mewn llywodraethu a
- Cynghori ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

I sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau, nodwyd mai cyfrifoldeb yr Is-Bwyllgor hwn yw adolygu a chymeradwyo'r Siarter gan sicrhau bod diffiniad clir o

- Bwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb Archwilio Mewnol,
- Annibyniaeth a llinellau adrodd y swyddogaeth Archwilio Mewnol,
- Cwmpas gwaith a hawliau mynediad Archwilio Mewnol,
- Bod y mandad yn cadarnhau bod Archwilio Mewnol yn meddu ar yr awdurdod cyfreithiol a sefydliadol i weithredu'n effeithiol ac yn darparu manylion am rôl a chyfrifoldebau swyddogaeth Archwilio Mewnol,
- Gwirio bod y Siarter a'r mandad yn sicrhau annibyniaeth Archwilio Mewnol ac yn diogelu Archwilio Mewnol rhag dylanwad amhriodol
- Goruchwylio a monitro gweithgareddau Archwilio Mewnol i adolygu cydymffurfiaeth â'r Siarter a'r mandad.

Gofynnwyd beth yw capasiti archwilio mewnol y CBC. Eglurwyd bod Cyngor Gwynedd yn darparu gwasanaeth archwilio mewnol trwy gytundeb lefel gwasanaeth, a nodwyd bod tîm archwilio mewnol Cyngor Gwynedd yn cynnwys Rheolwr Archwilio, dau Arweinydd Archwilio, a 4 Uwch Archwilwyr.

Gofynnwyd sut y penderfynir ar y rhaglen waith gyfredol ar gyfer archwilio mewnol. Manylwyd bod y cynllun blynyddol ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru yn cael eu llunio gyda mewnbwn y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid. Cadarnhawyd bydd y Cynllun Blynyddol yn dod ger bron yr Is-bwyllgor hwn yn y dyfodol i dderbyn cymeradwyaeth. Nodwyd nad oedd Cynllun Blynyddol wedi'i lunio ar hyn o bryd gan fod angen Siarter Archwilio yn gyntaf er mwyn llunio Strategaeth a'r Cynllun Blynyddol. Eglurwyd bod asesiad risg yn cael ei drafod ac y bydd unrhyw waith archwilio mewnol wedi ei llunio un unol â'r prif risgiau.

Sicrhawyd yr Is-bwyllgor bod Uchelgais Gogledd Cymru wrthi'n datblygu eu Strategaeth Risg Gorfforaethol, ac mae drafft wedi'i ddosbarthu gyda swyddogion, a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Is-Bwyllgor maes o law. Pwysleisiwyd ei bod yn parhau i fod yn ddyddiau cynnar ers trosglwyddo'r CBC ond fod llunio Strategaeth Risg Gorfforaethol ranbarthol yn flaenoriaeth ac yn ofyniad hanfodol.

Gofynnwyd pa gamau mae Uchelgais Gogledd Cymru a'r CBC wedi'u cymryd o ran cyhoeddusrwydd, yn enwedig ynglŷn â bwriad o gadw trigolion yn ymwybodol o swyddogaethau'r CBC. Eglurwyd mai gwefan sefydledig Uchelgais Gogledd Cymru yw'r rhyngwyneb cyhoeddus, ac mae'n cynnwys gwybodaeth â dyletswyddau statudol y CBC.

Nodwyd bod y gwaith y mae’r CBC yn ei wneud yn gymhleth a bydd yn cymryd amser i gasglu’r holl wybodaeth a chyrraedd y cynulleidfaoedd cywir.

Eglurwyd mai unwaith y cytunir ar y cytundeb ariannu ar gyfer y Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, y bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn rheoli gweinyddiaeth buddsoddiad gwerth oddeutu £400 miliwn ar gyfer hyrwyddo a gwella economi Gogledd Cymru. Nodwyd mai’r bwriad yw cyrraedd cymaint o gymunedau â phosib gyda’r buddsoddiad. Amlygwyd mai eu huchelgais hirdymor yw creu swyddi newydd o fewn yr economi ac annog cenedlaethau’r dyfodol i aros yng Ngogledd Cymru mewn swyddi gwerth uchel. Ychwanegwyd mai bwriad i ddenu talent yn ôl i’r rhanbarth a thargedu buddsoddiad sy’n darparu cyfleoedd ar draws sectorau allweddol. Nodwyd bod Uchelgais Gogledd Cymru ar hyn o bryd ym mlwyddyn pump o gyflawni’r Fargen Twf, sy’n gynllun 15 mlynedd ac felly’n dal i fod yn ei dyddiau cynnar.

Mynegwyd pryderon ynghylch sut mae archwilio mewnol yn cael ei ddefnyddio fel adnodd sy’n adlewyrchu dull systematig. Nodwyd bod y Siarter a gofynion yr Is-bwyllgor yn rhestru disgwyliadau o ran yr hyn y dylai’r archwiliad mewnol ei gwmpasu ac adrodd arno, er mwyn cynnig sicrwydd i’r Is-bwyllgor ynghylch a gweithrediadau'r CBC. Awgrymwyd, ochr yn ochr â’r Strategaeth Risg Gorfforaethol, y dylid datblygu Cofrestr Risg i ganiatáu i’r CBC ganolbwyntio ar ei flaenoriaethau. Mynegwyd bod angen i’r Is-bwyllgor symud tuag at ddull systematig o ran gweithredu. Sicrhaodd y Swyddog Adran 151 bod dull systematig yn rhan o reolau gweithdrefn ariannol y CBC, ac felly mae’r materion yn cael eu  cwblhau. Nodwyd bod y gofrestr risg yn rhan o’r gofynion llywodraethu’r CBC a bydd yn cael eu datblygu.

Nodwyd y bydd angen i aelodau o’r awdurdodau lleol angen dealltwriaeth well o sut mae cyfraniadau Awdurdodau Lleol yn cael ei defnyddio.

Ymhelaethwyd bod yn rhaid i’r Is-bwyllgor symud ymlaen yn gyflym er mwyn sicrhau nad ydynt yn syrthio ar ei hôl gydag Archwilio ac i adrodd yn ôl i’w hawdurdodau lleol yn briodol.

Cytunwyd y byddai’r Archwilio Mewnol ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Dechreuodd y cyfarfod am AmserAmhenodol a daeth i ben am AmserAmhenodol

**CADEIRYDD**